

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2025 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler,
John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells,
Su McConnel, Jayne McKenna, Phil Murphy, Maureen Powell,
Dale Rooke, Ann Webb, Laura Wright

Cynghorydd Sirol Sara Burch

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Joanne Chase	Cyfreithiwr a Phennaeth Cyfraith Fasnachol
Richard Ray	Paralegal
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Sue Riley

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 4 Chwefror 2025 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

3. DM/2023/01204 - Amnewid maes parcio, rhodfa ac adeiladu goleuadau mynediad gyda goleuadau LED, Meddygfa'r Hen Orsaf, 39 Brecon Road, Y Fenni

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/q9SBCHDpe24?si=K5kl5Fa1dZp4v07C&t=109>

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir Meirion Howells fod cais DM/2023/01204 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad, gydag amod 3 yn cael ei diwygio fel sy'n dilyn:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2025 2.00 pm

- Ni chaiff dim o'r goleuadau a gymeradwyir drwy hyn eu troi ymlaen rhwng 21.00 o'r gloch a 07.00 o'r gloch, yn cynnwys ar benwythnosau.

Pan roddwyd y mater i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

Dros gymeradwyo	-	14
Yn erbyn cymeradwyo	-	0
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2023/01204 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad, gydag amod 3 yn cael ei diwygio fel sy'n dilyn:

- Ni chaiff dim o'r goleuadau a gymeradwyir drwy hyn eu troi ymlaen rhwng 21.00 o'r gloch a 07.00 o'r gloch, yn cynnwys ar benwythnosau.

4. DM/2023/01474 - Codi tair annedd newydd gyda garejys mewnol, gan gynnwys mynediad i'r briffordd, parcio ceir a gwaith cysylltiedig arall, Severn Crescent, Cas-gwent

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Amod 14 ychwanegol i'w hychwanegu fel yr amlinellir mewn gohebiaeth hwyr:

- Serch y cynlluniau a gymeradwyir drwy hyn, caiff manylion llawn yr arwyneb caled i'w ddefnyddio ar gyfer yr ardal â chroeslinellau i'r fynedfa fel y dangosir ar Ddarluniad P01 E eu cyflwyno a'u cymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

Caiff yr arwyneb caled a gymeradwyir ei weithredu yn llawn cyn dod ag unrhyw annedd a gymeradwyir drwy hyn i ddefnydd buddiol.

Rheswm: sicrhau mynediad diogel a chyfleus i'r safle yn unol â Pholisi MV1 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

<https://www.youtube.com/live/q9SBCHDpe24?si=XgdojhotbBkWNFhK&t=1009>

Wrth nodi manylion y cais a'r farn a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir Laura Wright fod cais DM/2023/01474 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Amod 14 ychwanegol i gael ei hychwanegu fel yr amlinellir mewn gohebiaeth hwyr:

- Serch y cynlluniau a gymeradwyir drwy hyn, caiff manylion llawn yr arwyneb caled i'w ddefnyddio ar gyfer yr â chroeslinellau i'r fynedfa fel y dangosir ar Ddarluniad P01 E eu cyflwyno a'u cymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2025 2.00 pm

Caiff yr arwyneb caled a gymeradwyir ei weithredu yn llawn cyn dod ag unrhyw annedd a gymeradwyir drwy hyn i ddefnydd buddiol.

Rheswm: sicrhau mynediad diogel a chyfleus i'r safle yn unol â Pholisi MV1 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

Pan roddwyd y mater i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

Dros gymeradwyo	-	14
Yn erbyn cymeradwyo	-	0
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2023/01474 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Amod 14 ychwanegol i gael ei hychwanegu fel yr amlinellir mewn gohebiaeth hwyr:

- Serch y cynlluniau a gymeradwyir drwy hyn, caiff manylion llawn yr arwyneb caled i'w ddefnyddio ar gyfer yr â chroeslinellau i'r fynedfa fel y dangosir ar Ddarluniad P01 E eu cyflwyno a'u cymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

Caiff yr arwyneb caled a gymeradwyir ei weithredu yn llawn cyn dod ag unrhyw annedd a gymeradwyir drwy hyn i ddefnydd buddiol.

Rheswm: sicrhau mynediad diogel a chyfleus i'r safle yn unol â Pholisi MV1 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

5. ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio - Penderfyniadau o ran Apeliadau a Dderbyniwyd

<https://www.youtube.com/live/q9SBCHDpe24?si=KW240ZfSIANiavA6&t=2676>

5.1. Penderfyniad Apêl - The Boat Inn, Cas-gwent

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn The Boat Inn, The Back, Cas-gwent, Sir Fynwy ar 21 Ionawr 2025.

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.

5.2. Penderfyniad Costau - The Boat Inn, Cas-gwent

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio oedd yn cyfeirio at y penderfyniad costau ynghylch The Boat Inn, The Back, Cas-gwent, Sir Fynwy.

Nodwyd y gwrthodwyd y cais am ddyfarnu costau.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2025 2.00 pm

5.3. Penderfyniad Apêl - Tanglewood Close, Y Fenni

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn 4 Tanglewood Close, y Fenni ar 17 Rhagfyr 2024.

Nodwyd y cafodd yr apêl ei chaniatáu ac y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad cefn ac estyniad porth blaen yn 4 Tanglewood Close, y Fenni, NP77 5RJ, yn unol â thelerau'r cais, Cyf DM/2024/00845, dyddiedig 30 Mehefin 2024, gyda'r amodau a nodir yn yr atodlen i lythyr y penderfyniad.

5.4. Penderfyniad Apêl - Millers Arms, Merthyr Tewdrig

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Millers Arms, Heol Matharn, Matharn, Sir Fywy ar 14 Ionawr 2025.

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.

5.5. Penderfyniad Cost - Millers Arms, Merthyr Tewdrig

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at y penderfyniad costau yng nghyswllt Millers Arms, Heol Matharn, Matharn, Sir Fynwy.

Nodwyd y gwrthodwyd y cais am ddyfarnu costau.

5.6. Penderfyniad Apêl - Badger's Walk, Gwndy

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn 6 Badgers Walk, Gwndy ar 14 Ionawr 2025.

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.